

SWYDDOGOL

Teitl:	Datgeliadau'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin - Yn flaenorol (Swyddi Hysbysadwy)	
Maes Arfer / Busnes:	Diogelu Pobl Ddiamddiffyn	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Rheoli Gwybodaeth	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	Ion 2010	
Adolygwyd Ddiwethaf:	31/10/2019	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Hydref 2022	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	05	Prif Gwnstabl
AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:		
<p>Cadw De Cymru yn ddiogel drwy ddiogelu plant a phobl sy'n agored i niwed drwy gyfarwyddo'r holl staff i drin cudd-wybodaeth sy'n codi o ymddygiad nominal lle mae swydd y nominal yn dod ag ef i gysylltiad â phlant a phobl sy'n agored i niwed.</p>		
CANLLAWIAU:		
<p>Mae pob agwedd ar y canllawiau hyn a'r weithdrefn hon yn orfodol, felly cyfeiriwch at y Weithdrefn.</p>		
ASESIAD RISG CYFFREDINOL:		
<p>Nid oes angen asesiad risg iechyd a diogelwch</p>		
GWEITHDREFN:		
Pwerau'r Gyfraith Gyffredin		
<p>Mae gan yr heddlu bŵer Cyfraith Gyffredin i rannu gwybodaeth â thrydydd partion lle y sefydlir diben plismona (lle yr ystyrir pob achos yn ôl ei rinwedd ei hun). Diffinnir dibenion plismona o dan God Ymarfer Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu fel a ganlyn:</p>		
<ul style="list-style-type: none">• Diogelu bywyd ac eiddo; cadw trefn; atal troseddau rhag cael eu cyflawni; dwyn troseddwyr gerbron y llys; ac unrhyw un o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r heddlu sy'n codi o gyfraith gyffredin neu statud.		
<p>Y farn gyffredinol yw y dylai'r heddlu gadw cyfrinachedd gwybodaeth bersonol, ond mae barn gyfreithiol yn cefnogi'r broses o ddatgelu gwybodaeth am unigolyn i'w Gyflogwr neu Gorff Rheoleiddio Cymwys lle y gall angen cymdeithasol taer gael ei gadarnhau ar fyrder a lle mae budd y cyhoedd yn drech na'r ddyletswydd o gyfrinachedd.</p>		
<p>Mae'r weithdrefn hon yn ychwanegol at y trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a datgeliadau trydydd parti a gaiff eu hystyried gan Uned Diogelu'r Cyhoedd (PPU).</p>		
<p>Bydd swyddogion ymchwilio a Gwasanaethau'r Ddalfa yn gyfrifol am adnabod unigolyn</p>		

SWYDDOGOL

sydd wedi cael ei arestio neu sy'n destun proses Presenoldeb Gwirfoddol (VA) a chofnodi ei swydd, neu ei waith gwirfoddol, yn gywir. Dylid bod yn wylidwrus, a gwneud ymholiadau, er mwyn cadarnhau swydd yr unigolyn yn ogystal â nodi ym mha rinwedd y mae'n gweithio a ble mae'n gweithio. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig iawn ac mae'n RHAID ei chofnodi ar NICHE.

Caiff penderfyniad i ddatgelu ei wneud fesul achos ond, fel rheol, caiff gwybodaeth ond ei rhannu dim ond pan fydd yn berthnasol, yn angenrheidiol ac yn gymesur i wneud hynny gan ystyried yr holl amgylchiadau yn yr achos a'r risg a nodwyd i'r cyhoedd. Bydd datgeliadau'n cydymffurfio ag Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Cyfrifoldeb pob aelod o'r staff yw rhoi gwybod i'r adran lywodraethol briodol, y corff rheoleiddio/disgyblu proffesiynol a/neu gyflogwr fod yr unigolyn wedi cael ei arestio a'r dull gwaredu dilynol pan fydd staff o'r farn bod trothwy angen cymdeithasol taer y Gyfraith Gyffredin wedi'i fodloni. Mae'r farn hon yn un oddrychol gan nad oes diffiniad pendant o angen cymdeithasol taer. Lle y bwriedir gwneud datgeliad i gyflogwr, mae'n arfer da cynghori unigolyn ar y pryd gan y bydd hyn yn ei alluogi i wneud sylwadau ac ystyried rhoi gwybod i'w gyflogwr ei hun.

Lle y tybir ei bod yn briodol, dylai swyddogion sy'n delio â'r unigolyn hysbysu Cydlynnydd Datgeliadau'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin (CLPDC), yn yr Uned Rheoli Data – (DMU), dros e-bost, neu drwy flwch tasgau'r Swyddi Hysbysadwy. Bydd yr adran hefyd yn adolygu'r unigolion hynny a arestiwyd, neu sy'n destun proses VA, ar gyfer y cyfnod blaenorol o 24 awr. Gall y CLPDC drafod â swyddogion ymchwilio i benderfynu pwy yw'r unigolyn mwyaf addas i weithredu'r hysbysiad oherwydd gall y mater fod o natur sensitif ac efallai nad llythyr cyffredin, a gâi ei anfon gan y CLPDC fel arfer, fyddai'r cam gweithredu mwyaf priodol i'w gymryd

Pan fydd Gwasanaethau'r Ddalfa'n nodi unigolyn yn y ddalfa, a gyflogir mewn rhinwedd penodol sydd â goblygiadau diogelu, yna dylent hysbysu'r CLPDC drwy ddewis y marciwr amlen ar gofnod y ddalfa a fydd yn hunanboblogi ac yn anfon e-bost at y cyswllt mewnol perthnasol.

Yna bydd y CLPDC yn penderfynu a yw'n briodol bwrw ymlaen â datgeliad a chofnodi'r penderfyniad a wnaed ar Fframwaith Sicrhau Ansawdd (QAF) a'i ddogfennu. Yn yr achosion hynny lle mae datgeliad yn briodol, caiff llythyr datgelu ei baratoi, a'i gymeradwyo gan reolwyr y DMU, cyn cael ei anfon i'r awdurdod rheoleiddio perthnasol neu, mewn amgylchiadau penodol, at y cyflogwr. Caiff unrhyw ddatgeliad a wneir ei anfon, naill ai drwy gyfleuster e-bost diogel neu ddsbarthiad cofnodedig.

Os bydd yn fater o fyrder eithafol, neu os bydd bygythiad diogelwch uniongyrchol yn bodoli, dylai'r swyddogion ymchwilio gysylltu ar lafar â'r corff llywodraethu yn uniongyrchol gan fod y DMU ond yn gweithredu yn ystod oriau swyddfa. Mae'n **RHAID** i unrhyw weithred o'r fath gael ei chofnodi am y digwyddiad fel bod y CLPDC yn ymwybodol bod hysbysiad wedi'i wneud, ac atal achos o ddyblygu. Bydd hyn hefyd yn darparu llwybr archwilio.

Bydd y DMU yn creu ffolder ar ei chronfa ddata ar gyfer pob unigolyn pan gaiff QAF ei baratoi. Ar wahân i'r QAF, caiff unrhyw lythyr datgelu a gohebiaeth ddilynol eu cadw yn y ffolder hwn at ddibenion archwilio neu gyfeirio.

Bydd achosion lle bydd pryderon diogelu ac ni fydd yn bosibl i'r CLPDC hysbysu'r cyflogwr. Er enghraifft, pan fydd yr unigolyn wedi'i gyflogi gan sefydliad nad yw'n rheoleiddiol, megis cwmni bach, ac nad oes llwybr rhannu gwybodaeth yn bodoli, bydd y CLPDC yn cyfeirio'r mater at y swyddog ymchwilio er mwyn iddo roi mesurau diogelu ar waith yn lleol. Ar achlysuron o'r fath, atgoffir swyddogion i sicrhau y caiff unrhyw ddatgeliad ei wneud i un o uwch-reolwyr y cwmni neu'r sefydliad sy'n cyflogi'r unigolyn, fel y gellir delio â'r wybodaeth a ddatgelir mewn modd cyfrinachol i ddiogelu'r unigolyn dan sylw. Bydd enghreifftiau o'r fath yn cynnwys achosion pan fydd unigolyn wedi cael ei arestio ar amheuaeth o gyflawni troseddau o dan y Ddeddf Troseddau Rhywiol lle mae angen dangos cryn sensitifrwydd.

Dylid atgoffa swyddogion a staff fod yn rhaid i unrhyw benderfyniad i ddatgelu gwybodaeth yr heddlu gydbwyso hawliau a diddordebau'r unigolyn sy'n destun y datgeliad yn erbyn rhai'r cyhoedd, gan roi sylw ac ystyriaeth briodol i effaith datgeliadau ar fywyd preifat yr unigolyn dan sylw. Dylai penderfyniadau hefyd ystyried unrhyw effaith andwyol y gallai datgeliadau ei chael ar atal a chanfod trosedd.

Wrth ddatgelu i gyflogwr neu sefydliad gwirfoddol mae modd datgelu hefyd i awdurdod rheoleiddio neu drwyddedu, gan na ellir gwarantu y bydd y cyflogwr yn eu hysbysu. Diben gwneud y datgeliad yw galluogi'r derbynnydd i liniaru risg a gall y rheoleiddiwr feddu ar bwerau ehangach er mwyn rhoi proses liniaru o'r fath ar waith.

Pob Rheolwr/Goruchwyliwr/Aelod o Staff: Bydd pob cyflogai'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r broses a'r rôl y mae'n ei chwarae o ran helpu Heddlu De Cymru i gydymffurfio â'i ofynion.

Rhaid i'r holl gyflogeion hefyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y wybodaeth yn gywir ac yn cael ei chadw'n gyfredol
- Eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a'r canllawiau.

DEDDFWRIAETH A RHEOLEIDDIO: